

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Azira Aesthetics, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 01 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 01 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-375-4

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
4.	Y camau nesaf	15
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	17
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	18
	Atodiad C – Cynllun gwella	19



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Azira Aesthetics ar 01 Gorffennaf 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni am y gwasanaeth. Yn anffodus, ni chwblhawyd unrhyw holiaduron. Fodd bynnag, mae adborth a gasglwyd gan y gwasanaeth wedi cael ei ystyried fel rhan o'r arolygiad. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd ymarfer clinigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau yn sail i brofiad y claf ac i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am opsiynau triniaeth, risgiau, manteision a chostau, ac roedd prosesau asesu cadarn yn cefnogi gwaith cynllunio gofal. Dangosodd y staff clinigol ddealltwriaeth drylwyr o faterion a allai effeithio ar gydsyniad ac roeddent yn hyderus i wrthod trin cleifion unigol os oeddent yn teimlo nad oedd triniaeth yn addas i'r unigolyn.

Roedd yr amgylchedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas ac roedd cyfeiriadau at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mholisiau, gweithdrefnau a deunydd darllen y clinig. Roedd y clinig yn cymryd rhan weithgar wrth gyfeirio neu atgyfeirio cleifion at wasanaethau iechyd perthnasol eraill er mwyn cael asesiad pellach o friwiau croen amheus.

Gallai'r cleifion gysylltu â'r clinig a gwneud apwyntiadau drwy lwyfannau digidol, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ac roeddent yn cael eu hatgoffa o apwyntiadau a oedd ar ddod a thelerau ac amodau allweddol drwy wasanaeth anfon negeseuon. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried sicrhau bod dogfennau allweddol y clinig ar gael yn Gymraeg er mwyn gwella hygyrchedd i gleifion sy'n siarad Cymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Lluniodd bolisi hebryngwyr yn dilyn trafodaethau'r arolygiad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o atal a rheoli heintiau, trefniadau diogelu a gweithdrefnau ymateb i argyfyngau, yn ogystal â rheoli meddyginiaethau ac arferion laser/Goleuni Pwls Dwys (IPL) diogel lle y bo hynny'n berthnasol i'r rôl. Roedd mesurau diogelwch a chynnal a chadw cyfarpar priodol ar waith.

Roedd gwybodaeth cleifion yn cael ei rheoli'n ddiogel ac roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn gynhwysfawr ac yn cael eu cynnal yn dda. Gwnaethom drafod y syniad o gael allwedd o unrhyw dalfyriadau a ddefnyddir ar flaen pob llyfr cofrestr triniaethau.

Roedd angen gwaredu neu newid dwy eitem yn y pecyn cymorth cyntaf a nodwyd nifer bach o feysydd yr oedd angen eu gwella er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar lefel fwy cyffredinol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddaru'r asesiad risg tân i gwmpasu'r holl risgiau cyffredinol a phenodol
- Sicrhau bod gwaith glanhau yn cael ei gwblhau i safon gyson uchel a'i fod yn cael ei ddogfennu'n addas er mwyn cefnogi arferion atal a rheoli heintiau a dangos tystiolaeth ohonynt
- Rhoi rhaglenni archwilio ar waith yn barhaus. Gall hyn gynnwys glanhau ac atal a rheoli heintiau, hylendid dwylo a chydymffurfio â gofynion hyfforddiant a phroffesiynol craidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal aelodaeth o grwpiau proffesiynol perthnasol ac roedd tanysgrifiadau â'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn galluogi'r clinigwyr i gael rhybuddion diogelwch a diweddariadau rheolaidd mewn perthynas ag arferion gorau ym maes gofal esthetig, gan gynnwys triniaethau laser ac IPL.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod y gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli'n dda ar y cyfan, ac roedd y staff yn glir o ran eu meysydd cyfrifoldeb a'u llinellau adrodd. Roedd triniaethau gofal iechyd yn cael eu cyflawni gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig a dangosodd y staff ymrwymiad cadarn i ddiogelwch cleifion, gyda phenderfyniadau clinigol yn cael blaenoriaeth dros gadw cwsmeriaid.

Roedd yn amlwg bod dealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a rôl AGIC a chyrff rheoleiddio eraill. Roedd polisïau yswiriant addas ar waith. Gwnaethom drafod y byddai angen hysbysiad ffurfiol ar AGIC pe bai cynlluniau posibl i ehangu'r clinig o fewn yr adeilad yn symud ymlaen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau recriwtio, sefydlu, hyfforddiant, goruchwyliaeth ac arfarnu addas ar waith i gefnogi cymhwysedd a datblygiad y staff
- Roedd yn ystyried bod ei enw da yn bwysig ond bod yn rhaid i ddiogelwch, proffesiynoldeb ac arbenigedd fod wrth wraidd hyn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd y triniaethau gofal iechyd a oedd yn cael eu cynnig yn y clinig yn cael eu darparu gan ddwy nyrs gofrestredig a ddywedodd wrthym fod gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau yn sail i'r gofal y maent yn ei roi i gleifion. Roedd y ffyrdd y gallai'r clinig gefnogi cleifion â phryderon iechyd sy'n berthnasol i driniaethau croen a gwallt yr oeddent yn mynychu'r clinig ar eu cyfer wedi'u hystyried ac roedd y clinig yn cymryd rhan weithredol mewn cyfeirio neu atgyfeirio cleifion at wasanaethau iechyd perthnasol eraill i gael asesiad pellach o friwiau croen amheus.

Hefyd, darparwyd cymorth nyrsio i aelodau o'r cyhoedd yn yr ardal leol mewn ymateb i argyfwng meddygol ac yn unol â chod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Urddas a pharch

Roedd triniaethau Laser a Goleuni Pwls Dwys (IPL) yn cael eu rhoi i gael gwared ar flew a phigmentiadau croen o un ystafell drin a oedd yng nghanol safle'r clinig. Gellid cloi drws yr ystafell drin ac roedd bleind ychwanegol ar gael i amddiffyn preifatrwydd y cleifion. Roedd protocolau, ynghyd â darparu dillad gorchuddio addas, hefyd yn hyrwyddo urddas cleifion wrth baratoi ar gyfer triniaeth a chael triniaeth.

Cafodd polisi hebryngwyr addas ei lunio yn dilyn trafodaethau yn ystod yr arolygiad.

Gwelwyd bod aelodau o'r cyhoedd a oedd yn gwneud ymholiadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn a chontractwyr a oedd yn mynychu'r safle yn cael eu trin mewn ffordd barchus a phroffesiynol. Roedd y clinig ar gau i gleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd gwybodaeth mewn perthynas â thriniaethau a'u manteision ar gael ar y wefan. Roedd trafodaethau yn ystod ymgynghoriadau a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth lawn am opsiynau triniaeth, risgiau, manteision, addasrwydd unigol a chostau. Roedd sgysiau cydsynio cychwynnol yn cael eu cynnal ochr yn ochr â phrofion croen o leiaf 24 awr cyn dechrau unrhyw driniaeth bellach ac yna roedd cydsyniad yn cael ei gadarnhau ar ddechrau pob sesiwn driniaeth. Dangosodd nyrsys y clinig ddealltwriaeth drylwyr o faterion a all effeithio ar alluedd meddyliol claf i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am ei ofal. Gwnaethant ddarparu enghreifftiau hefyd o achosion o wrthod trin darpar gleifion pan nad oeddent o'r farn y byddai'r driniaeth yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Roedd croeso i gleifion yr oedd angen cymorth cyfathrebu arnynt i gael cwmni unigolyn o'u dewis. Fodd bynnag, roedd nyrsys y clinig yn sicr y byddent yn gwrthod trin claf os nad oeddent o'r farn y

gallai'r claf ddeall yr holl wybodaeth berthnasol i ddarparu cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gwybodaeth am y clinig ar gael ar ei wefan, sianeli'r cyfryngau cymdeithasol ac yn unigol mewn ymateb i ymholiadau. Gallai'r cleifion gysylltu â'r clinig a gwneud apwyntiadau drwy lwyfannau digidol, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ac roeddent yn cael eu hatgoffa o apwyntiadau a oedd ar ddod a thelerau ac amodau allweddol drwy wasanaeth anfon negeseuon. Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth lawn i gleifion mewn perthynas â'r clinig a thynnwyd sylw'r cleifion ato ar wefan y clinig yn fuan ar ôl ein harolygiad. Roedd cerdyn ymgynghoriad hefyd yn cael ei roi i'r cleifion ar ddiwedd eu hapwyntiad i'w hatgoffa o drafodaethau allweddol a'r triniaethau a roddwyd. Gwnaethom drafod y syniad o ddarparu dogfennau allweddol y clinig yn Gymraeg.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd siartiau asesu croen gweledol a phrotocolau meddygol cyfredol ar gael i lywio gwaith cynllunio gofal diogel ac effeithiol. Roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei ystyried drwy drafodaeth gadarn rhwng y claf a nyrs y clinig ac yn cael ei gadarnhau drwy ddatganiad meddygol a ffurflen gydsynio electronig a lofnodwyd pan wnaed y cyswllt cychwynnol ac mewn cysylltiadau dilynol. Dangosodd nyrsys y clinig ddealltwriaeth drylwyr o'r triniaethau roeddent yn eu cynnig ac o wrtharwyddion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd cyfeiriadau at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mholisiau, gweithdrefnau a deunydd darllen y clinig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod modd cyrraedd lleoliad y clinig yng nghanol y ddinas yn hawdd gan ddefnyddio nifer o opsiynau trafnidiaeth a pharcio. Roedd modd cael mynediad i'r safle drwy ddefnyddio ramp o lefel y stryd. Ystyriwyd newid y rheilen dal tywelion segur yn y toiled am ganllaw cydio. Fodd bynnag, ni fyddai adeiladwaith y wal yn cynnal hwn yn ddiogel.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith a byddai'r cleifion yn cael neges destun fel mater o drefn ar ôl pob apwyntiad i'w gwahodd i ddarparu adolygiad digidol. Byddai staff y clinig yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw adolygiadau a gyflwynwyd ac yn ymdrin ag unrhyw sylwadau negyddol yn unigol. Nid oedd system ar gyfer coladu adolygiadau neu gwynion nac i ddarparu datganiad blynyddol i AGIC ar waith yn flaenorol ond dangosodd rheolwyr y clinig sut y gellid gwneud hyn gan ddefnyddio'r feddalwedd sydd ar waith a gwnaethant nodi y byddent yn rhoi hyn ar waith yn fisol o hyn ymlaen.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Pwysleisiodd y rheolwr cofrestredig fod y gwydr a atgyfnerthwyd a'r caeadau gosodedig a osodwyd ar gyfer y busnes blaenorol yn fuddiol i ddiogelwch y clinig. Roedd system teledu cylch cyfyng wedi cael ei gosod hefyd ac roedd gwiriadau lles wythnosol gan yr heddlu lleol yn cefnogi'r busnes yng nghanol y ddinas a'r gymuned ehangach.

Roedd asedau a chyfarpar clinigol yn cael eu cadw mewn ystafell wedi'i chloi ac roedd angen mewnbynnu cyfrinair er mwyn defnyddio'r peiriannau laser ac IPL.

Roedd adroddiad archwilio a phrofi gosodiadau trydanol cyfredol a gwblheir bob pum mlynedd a thystiolaeth o Brofion Offer Cludadwy ar gael.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd asesiad risg tân a gwblhawyd gan y rheolwr cofrestredig ar gael i'w weld. Roedd hwn yn ystyried risgiau cyffredinol. Fodd bynnag, roedd angen ei ddiweddarau i sicrhau bod deunyddiau arddangos yn y ffenestr wedi cael eu hystyried yn llawn a'u lliniaru.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r asesiad risg tân er mwyn cynnwys yr holl risgiau cyffredinol a phenodol.

Gallai'r cleifion a'r staff weld arwyddion ar gyfer y llwybr dianc rhag tân a'r cynllun gweithredu yn glir pe bai argyfwng. Roedd y staff yn gwybod ble roedd y man ymgynnull a pham y dewiswyd y man hwn fel lleoliad amlwg i ffwrdd o'r adeilad. Roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos.

Roedd tystiolaeth bod cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi ar gael. Roedd diffoddwr tân addas ar gael mewn man canolog ar safle'r clinig ac roedd tystiolaeth o gontract gwasanaethu ar gyfer y cyfarpar hwn.

Roedd asesiadau risg iechyd a diogelwch cyffredinol ar gael ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos i atgoffa'r staff o'u cyfrifoldebau yn y gweithle. Yn gyffredinol, roedd y safle yn ymddangos mewn cyflwr da, heb unrhyw annibendod. Roedd y lloriau'n gadarn yn eu lle a'r llwybrau cerdded yn glir.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd deunyddiau glanhau addas a pholisïau Atal a Rheoli Heintiau ar gael a disgrifiodd y staff y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a glanhau i'w dilyn cyn ac ar ôl dod i gysylltiad â chleifion mewn modd cynhwysfawr. Roedd amserlen lanhau wedi'i chwblhau yn y toiled. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gwblhau i'r un graddau yn yr ardal glinigol ac, o archwilio'n agos, nodwyd bod angen glanhau'r sbectol amddiffynnol a ddefnyddir ar gyfer triniaethau IPL, cefn y peiriant laser/IPL a'r ardal o amgylch y toiled

yn fwy trylwyr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwaith glanhau yn cael ei gwblhau i safon gyson uchel a'i ddogfennu'n addas er mwyn cefnogi arferion atal a rheoli heintiau a dangos tystiolaeth ohonynt.

Trafodwyd archwiliadau hylendid dwylo yn ystod yr arolygiad, ac o fewn 48 awr i'r arolygiad, rhoddwyd cadarnhad bod templed addas wedi'i gaffael i'w roi ar waith.

Roedd biniau gwastraff addas a chontract gyda chludwr gwastraff ar waith. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai gweithdrefn ysgrifenedig neu arwyddion ychwanegol yn cael eu cynhyrchu i roi cyfarwyddyd i'r staff waredu gwastraff yn y biniau cywir.

Cadarnhawyd bod yr holl staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant ar Atal a Rheoli Heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd eitemau'r pecyn cymorth cyntaf yn cael eu gwirio'n fisol. Fodd bynnag, roedd dyddiad defnyddio'r flanced ffoil yn y pecyn cymorth cyntaf wedi dod i ben ac roedd angen ei newid, a thynnwyd masg rhoi ocsigen allan gan nad oedd dyddiad dod i ben arno ac nid yw'r cyfarpar hwn yn berthnasol i ofal gan fod staff y clinig wedi cadarnhau nad oedd silindrau ocsigen ar y safle. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi bod yn ystyried a ddylai gael diffibriliwr gan fod rhai eraill yr oedd yn ymwybodol ohonynt yn yr ardal leol at ddefnydd preifat yn eu lleoliad parhaol yn unig.

Cadarnhaodd y staff clinigol eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diweddar ar adfywio brys, anaffylaxis a hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd staff anghlinigol yn ymwybodol o ddisgwyliadau eu rôl mewn argyfwng i alw am gymorth ambiwlans. Drwy chwarae rôl, dangosodd aelodau'r tîm yr hyn y byddent yn ei wneud pe bai argyfwng ac roeddent wedi rhoi eu sgiliau ar waith mewn perthynas ag argyfwng a oedd wedi digwydd ar y stryd gerllaw lleoliad y clinig.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd y staff i gyd yn ymwybodol o'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ffurfiol ar waith a chawsant eu diweddar o fewn 48 awr i'n harolygiad i sicrhau eu bod yn adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn darparu manylion cyswllt cywir yr awdurdod lleol yn gyson. Roedd y clinig wedi tanysgrifio i gynllun adnewyddu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac roedd yn rhaid i'r nyrsys a oedd yn rhoi'r triniaethau laser ac IPL gadarnhau eu cymeriad da er mwyn cynnal eu cofrestriad nyrsio. Roedd hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau hefyd.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd triniaethau laser ac IPL yn cael eu darparu drwy beiriant esthetig amldefnydd. Roedd gwiriadau calibradu a diogelwch yn cael eu cwblhau'n awtomatig wrth droi'r peiriant ymlaen a byddai unrhyw namau a oedd yn cael eu canfod yn creu neges gwall ac yn atal y staff rhag ei ddefnyddio nes bod y nam wedi'i ddatrys. Roedd tystiolaeth o waith gwasanaethu a chalibradu blynyddol ar gael hefyd.

Roedd contract ar waith â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau addas a oedd wedi cwblhau asesiadau risg laser ac IPL ac wedi darparu rheolau lleol. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru rhif cyfresol y peiriant ar y dogfennau hyn ac ar dystysgrif cofrestru AGIC gan fod y peiriant a gofrestrwyd yn wreiddiol yn ddiffygiol a chafodd ei newid gan y gwneuthurwr am beiriant cyfatebol. Roedd angen diweddaru'r asesiad risg a'r rheolau lleol hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi canllawiau a oedd yn berthnasol i driniaethau pigmentiadau croen, yn ogystal â gwaredu blew, yn unol â chofrestriad AGIC a'r defnydd o beiriannau. Mae'r materion hyn yn cael eu datrys drwy'r tîm cofrestru.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth o hyfforddiant laser a Chraidd Gwybodaeth diweddar ar gael ar gyfer y ddau weithredwr laser. Roedd aelodaeth o'r Grŵp Arbenigol ar Gymhlethdodau Esthetig a'r Gydweithredfa Cymhlethdodau mewn Estheteg Feddygol a dilyn yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn galluogi'r clinigwyr i gael rhybuddion diogelwch a diweddariadau rheolaidd mewn perthynas ag arferion gorau ym maes gofal esthetig, sy'n cynnwys triniaethau laser ac IPL.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Nododd staff y clinig fod gwaith monitro a gwella ansawdd anffurfiol yn cael ei gynnal yn barhaus, a bod unrhyw wersi i'w dysgu neu ddiweddariadau'n cael eu rhannu drwy gyfarfod wythnosol. Nid oedd unrhyw archwiliadau na gwaith ymchwil ffurfiol yn cael eu cynnal gan y clinig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi rhaglen archwilio ar waith yn barhaus. Gall hyn gynnwys glanhau ac atal a rheoli heintiau, hylendid dwylo a chydymffurfio â gofynion hyfforddiant a phroffesiynol craidd.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Dangosodd staff y clinig eu bod yn parchu diogelwch gwybodaeth y cleifion yn fawr. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar system electronig ddiogel ac roedd cofrestrau triniaeth papur yn cael eu diogelu rhag mynediad heb awdurdod. Roedd polisïau llywodraethu gwybodaeth perthnasol ar waith.

Rheoli cofnodion

Roedd sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig glir o bamedrau triniaethau a'r rhannau o'r corff a gafodd eu trin. Roedd hanes meddygol a ffurflenni cydsynio yn cael eu cwblhau a'u llofnodi gan y claf a'r clinigydd a oedd yn ei drin. Roedd tystiolaeth ffotograffig o'r gosodiadau laser / IPL a oedd yn cael eu defnyddio yn cael ei chadw ar y system electronig. Roedd llyfrau cofrestr triniaethau papur yn coladu holl driniaethau'r cleifion, y defnydd o laser / IPL ac unrhyw ganlyniadau neu adweithiau uniongyrchol i'r triniaethau a ddarparwyd. Gwnaethom drafod y syniad o gael allwedd o unrhyw dalfyriadau a ddefnyddir ar flaen pob llyfr cofrestr triniaethau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Busnes bach yw Azira Aesthetics sy'n cael ei oruchwylio gan y Rheolwr Cofrestredig, sydd hefyd yn Unigolyn Cyfrifol ac yn nyrs gofrestredig sy'n darparu triniaethau gofal iechyd, gan gynnwys drwy ddefnyddio laser ac IPL. Roedd y busnes wedi penderfynu mai dim ond gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig fyddai'n darparu triniaethau gofal iechyd. Roedd rheolwr y clinig a derbynnydd dros y penwythnos yn cefnogi goruchwyliaeth weithredol a gweinyddiaeth y busnes. Contractwyr oedd y gweithwyr harddwch a oedd yn gweithio o'r clinig. Roedd disgwyl iddynt gynnal gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau'r clinig ond roeddent yn gyfrifol am gynnal eu sgiliau a'u huniondeb proffesiynol eu hunain. Roedd yn ymddangos bod y gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli'n dda ar y cyfan, ac roedd y staff yn glir o ran eu meysydd cyfrifoldeb a'u llinellau adrodd.

Roedd polisïau yswiriant addas ar waith.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd y polisi cwynion yn nodi y byddai'r clinig yn ceisio gwrandao ar unrhyw bryderon ac ymateb iddynt cyn iddynt gael eu huwchgyfeirio'n gwynion ffurfiol. Drwy drafod, roedd yn amlwg er bod y clinig yn dymuno bodloni cleifion, roeddent yn gweithio'n unol â'u polisïau a'u gweithdrefnau'n gyson er mwyn sicrhau bod diogelwch y cleifion yn cael blaenoriaeth dros gadw cwsmeriaid. Roedd gwefan y clinig yn nodi bod ei enw da yn bwysig ond bod yn rhaid i ddiogelwch, proffesiynoldeb ac arbenigedd fod wrth wraidd hyn.

Roedd y polisi cwynion yn dangos bod dealltwriaeth glir o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a rôl AGIC a chyrrff rheoleiddio eraill a ddarparwyd manylion cyswllt perthnasol pe bai cleifion neu'r staff yn dymuno rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn ffurfiol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd polisi recriwtio ar waith. Casglwyd hanes gwaith a hyfforddiant llawn cyn cyflogi ac roedd unrhyw gofrestriadau proffesiynol a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd yn ofynnol yn cael eu cadarnhau'n barhaus.

Disgrifiwyd proses sefydlu gynhwysfawr i gyflogeion newydd lle byddai amser yn cael ei dreulio yn edrych ar bolisiau a gweithdrefnau, bod yn bresennol yn y clinig fel aelod ychwanegol o staff a chwblhau hyfforddiant hanfodol cyn dechrau rhoi triniaethau. Roedd cylch hyfforddiant hanfodol yn diffinio'r broses o gynnal gwybodaeth a sgiliau'r staff yn rheolaidd mewn perthynas â phynciau diogelwch allweddol sy'n berthnasol i'r rôl. Roedd sesiynau goruchwyllo anffurfiol yn darparu cymorth parhaus ac roedd arfarniadau'n cael eu cwblhau'n flynyddol hefyd fel ffordd o ddarparu adborth ffurfiol a chytuno ar hyfforddiant parhaus yn unol ag anghenion y busnes a dyheadau proffesiynol personol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Yn ystod ein harolygiad, nodwyd cynlluniau posibl i ehangu'r clinig o fewn yr adeilad yn y dyfodol. Bydd angen cyflwyno hysbysiad ffurfiol i AGIC os bydd y cynlluniau hyn yn bwrw yn eu blaen.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd dyddiad dod i ben y flanced ffoil yn y pecyn cymorth cyntaf wedi mynd heibio ac nid oedd dyddiad dod i ben ar fasg rhoi ocsigen.	Roedd posibilrwydd y byddai cyfarpar a oedd wedi dod i ben yn methu, gan effeithio ar ddiogelwch y cleifion.	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig a'r staff clinigol.	Cytunwyd y dylid newid y flanced ffoil. Tynnwyd y masg rhoi ocsigen o'r pecyn cymorth cyntaf oherwydd cadarnhaodd staff y clinig nad oedd silindrau ocsigen ar y safle.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Azira Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 01 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau

Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Azira Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 01 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd asesiad risg tân yn ystyried risgiau cyffredinol. Fodd bynnag, roedd angen rhoi ystyriaeth bellach i elfennau penodol fel deunyddiau i'w harddangos yn y ffenestr.	Bydd yr asesiad risg tân yn cael ei ddiweddarau i gwmpasu pob risg gyffredinol a phenodol.	Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 Erthygl 9(1)	Mae'r clinig wedi diweddarau'r asesiad risg tân i gynnwys yr arddangosfa yn y ffenestr. Rydym hefyd wedi prynu diffoddwr tân dŵr i'w gadw ar y safle gyda'n diffoddwr tân CO ₂ presennol. Diffoddwyr dŵr sydd fwyaf effeithiol ar gyfer oeri'r deunydd a stopio'r fflamau'n ddiogel.	Rheolwr Cofrestredig/Cyfarwyddwr y Clinig	Ar unwaith. Prynwyd diffoddwr tân dŵr ar 05/08/2026. Dangoswyd tystiolaeth i AGIC ar 05/08/2026.

2.	O'u harchwilio'n agos, nodwyd bod angen glanhau'r sbectol amddiffynnol a ddefnyddir ar gyfer triniaethau IPL, cefn y peiriant laser/IPL a'r ardal o amgylch y toiled yn fwy trylwyr.	Dylid cwblhau gwaith glanhau i safon gyson uchel a'i ddogfennu'n addas er mwyn cefnogi arferion atal a rheoli heintiau a dangos tystiolaeth ohonynt.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26(2)(a) a 15(8) (c)	Ers yr arolygiad, mae'r clinig wedi glanhau'r sbectol amddiffynnol ar gyfer y peiriant IPL/Laser yn drylwyr gyda Clinisept. Mae'r dasg hon hefyd wedi cael ei hychwanegu at y rhestr wirio ddyddiol ar gyfer glanhau'r ystafell drin sydd wedi'i chyflwyno i AGIC fel tystiolaeth. Mae brwsh tynnu llwch yn ardal y toiled erbyn hyn er mwyn glanhau mannau sy'n anodd eu cyrraedd ac mae'r rhestr wirio ddyddiol ar gyfer glanhau'r toiled wedi cael ei diweddaru i gynnwys 'tynnu llwch' yn y tasgau glanhau dyddiol er mwyn cynnwys yr ardaloedd uwch. Mae hon hefyd wedi cael ei	Rheolwr Cofrestredig/Cyfarwyddwr y Clinig	Rhoddwyd ar waith ar unwaith. Dangoswyd tystiolaeth i AGIC ar 05/08/2026.
----	---	---	---	---	--	--

				chyflwyno i AGIC fel tystiolaeth.		
--	--	--	--	--------------------------------------	--	--

3.	Nid oedd rhaglen archwilio reolaidd ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella.	Bydd rhaglen archwilio yn cael ei rhoi ar waith, er enghraifft, i gynnwys glanhau ac atal a rheoli heintiau, hylendid dwylo a chydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant craidd a phroffesiynol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 19(1)(a)	Yn dilyn yr arolygiad, datblygodd y clinig raglen hyfforddiant staff sy'n cynnwys matrices hyfforddiant sy'n monitro hyfforddiant pob aelod o'r staff gan gynnwys hyfforddiant atal a rheoli heintiau a hyfforddiant craidd. Mae hyn yn cynnwys y dyddiad cwblhau diwethaf a'r dyddiad adolygu/cwblhau nesaf. Mae hefyd yn cynnwys tabl amllder hyfforddiant at ddibenion cyfeirio. Mae hwn wedi'i gyflwyno i AGIC fel tystiolaeth. Mae'r clinig hefyd wedi caffael templed ar gyfer archwiliadau atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo a gaiff eu cwblhau ar hap.	Rheolwr Cofrestredig/Cyfarwyddwr y Clinig	Rhaglen hyfforddiant wedi'i rhoi ar waith ar 09/07/2026 a dangoswyd tystiolaeth i AGIC ar 24/07/2026. Rhoddwyd archwiliadau atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo ar waith ar 03/07/2026 a dangoswyd tystiolaeth i AGIC ar 07/07/2026. Cwblhawyd yr archwiliad hylendid dwylo cyntaf ar
----	---	--	--	--	---	---

				Mae hwn wedi'i gyflwyno i AGIC fel tystiolaeth hefyd.		29/07/2026 a dangoswyd tystiolaeth i AGIC ar 05/08/2026.
--	--	--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Grace Cobner

Enw (priflythrennau): Grace Cobner

Swydd: Rheolwr Cofrestredig a Chyfarwyddwr y Clinig

Dyddiad: 05/08/2026